



Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Hawliau Defnyddwyr: Gwelliant ynghylch Ffioedd Asiantaethau Gosod

Cefndir

1. Ar 21 Hydref 2014, gosododd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ('y Gweinidog') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ('y Memorandwm') ar gyfer y Bil Hawliau Defnyddwyr sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.
2. Ar 4 Tachwedd 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ('y Pwyllgor') i'w drafod. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, pennodd y Pwyllgor Busnes 20 Tachwedd 2014 fel y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad.
3. Mae dadl wedi'i threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Tachwedd 2014 ynghylch Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, ('y Cynnig'), mewn perthynas â'r Memorandwm.

Bil Hawliau Defnyddwyr:

4. Caiff y Bil Hawliau Defnyddwyr ei noddi gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw egluro a symleiddio hawliau defnyddwyr, i wneud darpariaeth ynghylch pwerau ymchwilio ar gyfer rheoleiddio masnachwyr a gwneud defnyddwyr yn fwy gwybodus a'u diogelu'n well.
5. Gellir cael rhagor o wybodaeth am amcanion polisi'r Bil ym mharagraffau 5 i 7 o'r Memorandwm.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

6. Mae angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y gwelliannau i'r Bil Hawliau Defnyddwyr a gyflwynwyd gan y Farwnes Neville-Rolfe ar 7 Hydref 2014.
7. Nod y gwelliannau hyn yw ceisio diwygio Pennod 3 o Ran 3 o'r Bil (gan gynnwys ychwanegu Atodlen newydd cysylltiedig) i ddarparu, ymhlith pethau

eraill, bod Pennod 3 yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae Pennod 3 yn gosod dyletswyddau ar asiantau gosod i arddangos a chyhoeddi rhestr o'u ffioedd, mewn man amlwg, ar bob un o'u safleoedd ac ar eu gwefannau, ynghyd â disgrifiad o'r gwasanaeth, y gost neu ddiben pob ffi.

8. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau arfaethedig ym mharagraffau 10 i 13 o'r Memorandwm.

Trafodaeth y Pwyllgor

9. Trafodwyd y Memorandwm ar 5 Tachwedd 2014. Rydym wedi nodi o'r Memorandwm fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys gofyniad i asiantau roi cyhoeddusrwydd i'w ffioedd o fewn y Cod Ymarfer sy'n ymwneud â thrwydded a roddir mewn perthynas â Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Erbyn hyn, fodd bynnag, cred Llywodraeth Cymru fod y Bil Hawliau Defnyddwyr yn darparu mecanwaith deddfwriaethol cryfach¹ i gyflawni ei nod o wneud ffioedd gosod yn fwy tryloyw.

Ein barn ni

10. Rydym yn gresynu na fanteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle i gynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i'r hyn a gaiff ei amlinellu yn y Memorandwm hwn mewn perthynas â thryloywder ffioedd asiantau gosod o fewn y Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

11. Nid oes gennym wrthwynebiad i dderbyn y Cynnig.

¹Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Hawliau Defnyddwyr
<http://www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld9963%20-%20legislative%20consent%20memorandum%20consumer%20rights%20bill/lcm-ld9963-w.pdf>